Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyrraedd sero net

## Syniadau a chyngor i’n helpu ni i siarad am ein camau nesaf

Mae sero net yn meddwl faint o nwy niweidiol rydyn ni’n ei roi i’r awyr, ac yn ddim mwy na’r swm rydyn ni’n gallu ei gymryd allan ohono.













Hydref 2025

# Sut i ddefnyddio'r llyfryn yma

Hawdd ei Ddeall

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Galluogi Pobl Cymru i Gyflawni ac Elwa o'r Trawsnewidiad Sero Net yn 2026-2030 a thu hwnt.**




Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn ysgrifen **glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth maen nhw'n feddwl ar **dudalen 44**.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.gweithreduarhinsawdd.llyw.cymru

**E-bost:** climatechange@gov.wales

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys

**Am y llyfryn yma** .......... **4**

**Sut rydych chi'n gallu cymryd rhan** .......... **6**

**Sut mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar Gymru** .......... **10**

**Beth sydd angen i ni ei wneud** .......... **12**

1.Rhannu'r un nodau .......... 16

2.Pobl yn cymryd rhan .......... 17

3.Syniadau a sgiliau newydd .......... 19

**Sut mae ardaloedd yn cysylltu gyda'i gilydd** .......... **21**

**Cyngor gan ymchwil** .......... **28**

**Camau nesaf** .......... **44**

**Geiriau anodd** .......... **45**

# Am y llyfryn yma

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ni ydy Llywodraeth Cymru.




Rydyn ni'n ysgrifennu ein cynllun 5 mlynedd nesaf i'n helpu i gyrraedd **sero net**. Fe fydd y cynllun yn dod allan ddiwedd **2026**.



Mae **sero net** yn meddwl faint o nwy niweidiol rydyn ni'n ei roi i'r awyr, ac yn ddim mwy na'r swm rydyn ni'n gallu ei gymryd allan ohono.

Rydyn ni'n gwneud hyn trwy:


- Gostwng faint o nwyon niweidiol rydyn ni'n eu rhoi i'r awyr.
- Dod o hyd i ffyrdd o lanhau nwy niweidiol o'r aer.



Rydyn ni eisiau i beth rydych chi'n feddwl ein helpu ni i wneud y cynllun yma. Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr ei fod yn deg ac yn dda i bawb.




Mae nwyon niweidiol yn cael eu rhoi i'r awyr pan fyddwn ni'n llosgi tanwydd fel glo, olew a nwy i wresogi ein cartrefi, a gyrru ceir.




Mae'r nwyon yn yr awyr yn gweithredu fel blanced. Trapio gwres i mewn a chynhesu'r blaned. Mae hyn yn arwain at **newid yn yr hinsawdd**.



Mae **newid yn yr hinsawdd** yn newidiadau mawr yn y tywydd. Er enghraifft, lleoedd sy'n mynd yn fwy cynnes, gwlyb neu sych. Mae'r newidiadau yma yn achosi I bethau fel stormydd, llifogydd a thanau gwyllt waethygu.



Mae'r llyfryn yma yn dweud wrthych chi am syniadau, ymchwil, a chyngor ar sut rydyn ni'n gallu cyrraedd **sero net**.



Fe fydd y syniadau yn y llyfryn yma yn eich helpu chi i gymryd rhan mewn sgyrsiau am beth ddylen ni ei wneud.

# Sut rydych chi'n gallu cymryd rhan

**Rydych chi'n gallu cymryd rhan yn Wythnos Hinsawdd Cymru.**



Fe fydd Wythnos Hinsawdd Cymru yn siarad am y syniadau yn y llyfryn yma.




Mae Wythnos Hinsawdd Cymru ym mis Tachwedd.



Fe fydd cynhadledd ar-lein rhwng dydd Llun 3 a dydd Mercher 5 Tachwedd.



Fe fydd 3 gweithdy yn Ne Cymru, Canolbarth Cymru a Gogledd Cymru.

**Rydych chi'n gallu ymuno â digwyddiad Sgyrsiau Hinsawdd.**




Fe fyddwn ni'n cefnogi sefydliadau i gynnal eu sgyrsiau cymunedol eu hunain.



Yn y sgyrsiau fe fyddwch chi'n siarad am y syniadau yn y llyfryn yma.



Mae sefydliadau yn gallu cael arian i gefnogi hyn.




Fe fydd y digwyddiadau cymunedol yn digwydd rhwng Tachwedd 2025 a Chwefror 2026.



Rydyn ni wedi cefnogi dros 100 o’r digwyddiadau yma ers 2022. Mae dros 6 mil o bobl wedi cymryd rhan.

**Fe fydd eich adborth yn ein helpu:**



- Cynnwys gwahanol safbwyntiau yn ein cynllun nesaf.



- Dod o hyd i ffyrdd o gael mwy o bobl i gymryd rhan mewn gwaith sy’n gofalu am ein planed.




Mae mwy o wybodaeth am y digwyddiadau hyn yma: [www.gweithreduarhinsawdd.llyw.cymru/wythnos-hinsawdd-cymru](www.gweithreduarhinsawdd.llyw.cymru/wythnos-hinsawdd-cymru)

# Pethau i feddwl amdanyn nhw



**Wrth i chi ddarllen y llyfryn yma, meddyliwch am:**

- **Sut rydyn ni'n gallu gwneud newidiadau yn gyflym?**
- **Sut mae pobl yng Nghymru yn gallu arbed ynni, a theithio mewn ffyrdd mwy gwyrdd? Mae mwy gwyrdd yn meddwl gwell i'r blaned.**
- **Sut rydyn ni'n gallu torri nwyon niweidiol wrth gadw'n ddiogel rhag risgiau, fel stormydd a llifogydd?**
- **Pa bethau sy'n stopio cynnydd, a sut rydyn ni'n gallu cael gwared arnyn nhw?**
- **Sut rydyn ni'n gallu gwneud newidiadau sy'n deg i bawb?**

# Sut mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar Gymru




Mae Cymru'n cynhesu. Mae hyn yn achosi llawer o broblemau, fel llifogydd a thanau gwyllt.

Mae **newid yn yr hinsawdd** yn gallu effeithio ar:



- Iechyd pobl.



- Swyddi ac arian.



- Cartrefi a chymunedau.

Mae gwneud rhywbeth am hyn yn gallu gwneud bywyd yn well. Mae'n gallu helpu:



- Cadw pobl yn iach.



- Arbed arian i bobl a busnesau.



- Gwneud ynni'n fwy diogel ac yn haws i ddibynnu arno.




- Creu mwy o swyddi.




Os ydyn ni'n aros yn rhy hir i wneud unrhyw beth, fe fydd pethau'n gwaethygu.

# Beth sydd angen i ni ei wneud




Yng Nghymru, mae gennym ni dargedau i helpu i ddelio â **newid yn yr hinsawdd**. Rhaid i ni gyrraedd **sero net** erbyn 2050.




Fe ddaeth ein cynllun **sero net** cyntaf allan yn 2016.



Rydyn ni wedi gwneud gwaith da hyd yma – rydyn ni ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targedau.



Ein cynllun 2026 fydd ein trydydd cynllun.

Mae'r rhan fwyaf o doriadau mewn nwyon niweidiol hyd yn hyn wedi dod o newidiadau yn:



- Y ffordd rydyn ni'n defnyddio ac yn darparu pŵer, fel trydan.



- Diwydiant, fel ffatrïoedd.

Mae angen i'n cynllun ar gyfer y 5 mlynedd nesaf ganolbwyntio ar leihau nwyon niweidiol mewn:



- **Trafnidiaeth** – trwy ddefnyddio mwy o geir, bysiau a threnau trydan.



- **Cartrefi ac adeiladau** – trwy ddefnyddio gwres trydan a lleihau'r defnydd o ynni. Gwneud yn siŵr bod tai yn cael eu hadeiladu i gadw gwres y tu mewn ac arbed ynni. Hefyd inswleiddio hen dai yn well.




- **Ffermio a defnydd tir** – mae ffermwyr yn gallu defnyddio gwahanol ffyrdd i leihau nwyon niweidiol. Maen nhw'n gallu plannu mwy o goed. Defnyddio llai o wrteithiau niweidiol, cadw defaid yn iachach. Defnyddio peiriannau fferm sy'n cynhyrchu ychydig neu ddim carbon.



Rydyn ni'n gallu defnyddio tir yn well ar gyfer bwyd, coed, tai, a chreu ynni.

Mae angen i ni wneud yn siŵr:




1. Mae ein holl waith yn rhannu'r un nodau.



2. Mae pobl yn cymryd rhan.



3. Rydyn ni'n defnyddio syniadau a sgiliau newydd.

# 1. Rhannu'r un nodau

Fe ddylai ein nodau ar gyfer trafnidiaeth, cartrefi ac adeiladau, a ffermio a defnydd tir:



- Lleihau nwyon niweidiol yn gyflym.



- Defnyddio ynni mwy gwyrdd.



- Bod yn deg a helpu pobl sydd angen cymorth ychwanegol.



- Gwneud bywyd yn well i bobl.

## 2. Pobl yn cymryd rhan



Mae pawb yn gallu helpu trwy wneud dewisiadau da, fel:



- Bwyta bwyd iach sy'n dda i'r blaned.



- Arbed ynni gartref.



- Defnyddio ceir trydan a cherdded, neu feicio mwy.



Rydyn ni eisiau i bobl gael dweud eu dweud ar bethau fel:



- Y ffordd mae ffermwyr a pherchnogion tir yn defnyddio eu tir ac yn rhedeg eu ffermydd.



- Gwella cartrefi ac adeiladu tai sy'n defnyddio llai o ynni.



- Helpu i gynllunio trafnidiaeth fel ei fod yn ateb eich anghenion ac yn well i'r blaned.

## 3. Syniadau a sgiliau newydd



Mae pob busnes yn gallu lleihau nwyon niweidiol, gofalu am natur a dal i wneud yn dda.

Rydyn ni angen:



- Offer a syniadau busnes newydd, fel ceir trydan a phympiau gwres.



- Sgiliau newydd, fel hyfforddiant i weithwyr i wneud cartrefi yn well.




- Ffyrdd o gadw llygad ar gynnydd a helpu penderfyniadau.



Er mwyn cael hyn i gyd, mae angen i fusnesau a’r llywodraeth roi mwy o amser ac arian i mewn:

- Cymunedau.
- Addysg a hyfforddiant.
- Offer digidol – fel apiau a’r rhyngrwyd.

**Yn Wythnos Hinsawdd Cymru fe fyddwn ni’n edrych ar:**



- **Beth sy’n ei gwneud hi’n anodd rhoi cynnig ar syniadau newydd a dysgu sgiliau newydd.**



- **Os oes digon o gefnogaeth i dechnoleg, sgiliau a data.**

# Sut mae ardaloedd yn cysylltu gyda'i gilydd



Mae angen i ni:

- Deall sut mae gwahanol ardaloedd yn effeithio ar ei gilydd.



- Meddwl am broblemau a sut i'w datrys.




- Lleihau costau ychwanegol a chael y buddion mwyaf.



Mae rhai enghreifftiau o sut mae ardaloedd yn cysylltu isod.

# Defnydd tir a thai



Mae adeiladu cartrefi yn gallu cymryd tir sydd ei angen ar gyfer ffermio, natur a choedwigoedd.



Does dim llawer o dir. Rhaid i ni ddefnyddio tir mewn ffordd sy'n caniatáu inni gael cartrefi, bwyd, ynni, **a** gwarchod natur.



Mae cael mannau gwyrdd mewn safleoedd tai newydd yn gallu helpu pobl, natur a **newid yn yr hinsawdd**.



Mae angen i ni gynllunio safleoedd tai mewn ffyrdd sy'n dda i natur a'r blaned.

# Tai a thrafnidiaeth



- Mae rhai tai wedi'u hadeiladu mewn mannau lle mae angen i bobl ddefnyddio ceir i fynd o gwmpas. Mae defnyddio ceir petrol a diesel yn cynyddu nwyon niweidiol.



- Mae cymunedau llai gyda llwybrau cerdded, beicio da yn lleihau'r defnydd o geir.

# Trafnidiaeth a defnydd tir



- Mae prosiectau trafnidiaeth yn gallu effeithio ar fywyd gwyllt a sut mae tir yn cael ei ddefnyddio.



- Mae angen i ni amddiffyn natur wrth dorri nwyon niweidiol.





- Mae trafnidiaeth da yng nghefn gwlad yn cefnogi pobl a busnesau.

# Sut mae pethau’n cael eu lleoli



Mae hyn yn meddwl cynllunio am sut mae tir, adeiladau, ffyrdd yn cael eu gwneud. A sut mae pobl yn defnyddio’r gofodau hynny.




[Cymru’r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040]() ydy’r cynllun ar gyfer sut y bydd Cymru’n tyfu tan 2040.



Mae’n canolbwyntio ar:

- Economi gref.
- Torri carbon.
- Gwarchod natur.
- Gwell iechyd a lles.



Mae Cymru'r Dyfodol yn dangos lle dylai cartrefi newydd, trafnidiaeth a phrosiectau ynni fynd. Mae'n helpu i wneud yn siŵr bod pob datblygiad newydd yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.



Mae'r cynllun yn gofyn i'r llywodraeth, busnesau a chymunedau weithio gyda'i gilydd dros Gymru well.




Dyma'r prif gynllun i Gymru. Rhaid i gynlluniau lleol a rhanbarthol ei ddilyn.



Rhaid i bob penderfyniad cynllunio yng Nghymru gyd-fynd â Dyfodol Cymru. Fe fydd hyn yn helpu i adeiladu dyfodol mwy gwyrdd, iach a theg.

## Pam mae hyn yn bwysig



Mae’r cysylltiadau yma yn dangos bod angen cynllunio ar draws ardaloedd.



Fe ddylai pobl a chymunedau fod yn rhan o benderfyniadau.

**Yn Wythnos Hinsawdd Cymru fe fyddwn ni’n edrych ar:**



**Pa gysylltiadau, problemau a manteision sy’n cael eu rhannu ar draws ardaloedd?**

# Cyngor gan ymchwil



Mae ymchwil yn rhoi gwybodaeth i ni i'n helpu ni i wneud penderfyniadau da. Mae ymchwil hefyd yn dangos:

- Pethau dydyn ni ddim yn eu gwybod eto.
- Problemau newydd sydd yn gallu codi.
- Cyngor i helpu i wneud dewisiadau gwell.




Mae'r llyfryn yma yn dangos cyngor arbenigol gan:

- Y **Pwyllgor Newid Hinsawdd** am gyrraedd ein targedau.
- Polisïau'r DU a Llywodraeth Cymru.
- Ymchwil ac adroddiadau eraill am gyrraedd **sero net**.

# Ffermio a thir

Mae gennym ni lawer o bolisïau a chynlluniau ar gyfer ffermio a defnydd tir. Eu nod ydy:



- Gwneud yn siŵr bod Cymru'n gwneud digon o fwyd ar gyfer y dyfodol.



- Gwneud yn siŵr ein bod ni'n helpu ffermwyr a'u busnesau. Tra hefyd yn helpu i leihau nwyon niweidiol.



- Torri nwyon niweidiol o ffermio ac anifeiliaid fferm.



- Helpu ffermwyr i blannu mwy o goed. Mae coed yn helpu i lanhau'r aer ac stopio llifogydd.



- Annog ffermydd i weithio mewn ffyrdd sy'n well i'r blaned.




- Rhoi arweiniad i ffermwyr i'w cefnogi pan fydd pethau'n newid.



- Rheoli ein tir mewn ffordd sy'n dda i natur, fel cynnwys gwrychoedd a glaswelltiroedd.



- Gwarchod bywyd gwyllt wrth ffermio.

**Cyngor arbenigol a syniadau ar gyfer gweithredu:**



- Cael mwy o goetir.



- Adfer mawndiroedd i helpu i lanhau'r aer a diogelu natur. Mae mawndiroedd yn fath arbennig o wlyptir – tir wedi'i socian mewn dŵr. Maen nhw'n bwysig i natur a bywyd gwyllt. Ac maen nhw'n dal ac yn storio nwyon niweidiol.




- Defnyddio mwy o goed a gwrychoedd ar ffermydd.




- Fe ddylai ffermio ddarparu bwyd, helpu i lanhau'r aer, helpu natur a dŵr.



- Cadw llai o anifeiliaid fferm i wneud nwyon llai niweidiol a ffermio mewn ffordd well.



- Mae lleihau faint o gig a llaeth rydyn ni'n ei wneud a'i fwyta yn helpu'r tir ac yn lleihau nwyon niweidiol.



- Mae angen cyngor a chefnogaeth ar ffermwyr ar gyfer newidiadau.



- Fe ddylai ffermwyr gael eu gwobrwyo am warchod natur.




- Mae angen ffyrdd da o fesur canlyniadau.


**Cwestiynau i'w trafod yn Wythnos Hinsawdd Cymru:**



- **Beth sy'n helpu neu'n ei gwneud hi'n anodd i ffermydd leihau nwyon niweidiol?**
- **Sut rydyn ni'n gallu defnyddio tir ar gyfer bwyd, tai, gwaith, natur, a byw mewn ffordd deg?**
- **Sut mae technoleg yn gallu helpu?**
- **Sut mae gwerthu cynhyrchion sy'n gyfeillgar i natur yn gallu cefnogi pob ffermwr, gan gynnwys ffermydd llai?**

# Tai a gwres

Mae gennym ni lawer o bolisïau a chynlluniau ar gyfer tai a gwres. Nod y rhain ydy:



- Gwneud cartrefi cynhesach a defnyddio llai o ynni.



- Helpu pobl sy'n cael trafferth gyda chostau gwresogi.



- Cefnogi pobl sy'n berchen ar eu cartrefi gyda chyngor, grantiau ac opsiynau gwresogi.



- Hyfforddi gweithwyr i uwchraddio cartrefi a llenwi swyddi gwyrdd. Mae swyddi gwyrdd yn swyddi sy'n helpu i amddiffyn y blaned.



- Gwneud yn siŵr bod cartrefi newydd yn defnyddio llai o ynni.



- Cefnogi ffyrdd newydd o adeiladu, gan gynnwys defnyddio pren lleol a deunyddiau sy'n para.




- Rhoi cyngor a hyfforddiant am ddim i helpu pobl i arbed ynni a gwella eu cartrefi.

**Cyngor arbenigol a syniadau ar gyfer gweithredu:**



- Stopio gwresogi gyda nwy ac olew. Erbyn 2033, fe ddylai bron i 1 o bob 4 cartref ddefnyddio gwresogi gyda nwyon llai niweidiol. Fe fydd hyn yn torri biliau ac yn gwella'r aer.



- Gwneud i gartrefi ddefnyddio llai o ynni. Gwaith uwchraddio mawr ar gyfer rhai cartrefi a newidiadau bach ar gyfer dros 1 miliwn o gartrefi.




- Fe fydd pob cartref newydd o 2026 yn barod am **sero net**. Newid hen eitemau fel oergelloedd a poptai a chadw arferion ynni da.



- Hyfforddi gweithlu medrus ar gyfer swyddi gwyrdd. Cefnogi pobl ifanc a gweithwyr i newid swyddi.



- Rhoi gwybodaeth glir i helpu pobl i wneud dewisiadau gwell i'r blaned.



- Canolbwyntio ar dai cymdeithasol a theuluoedd incwm isel.



- Gadael i ardaloedd lleol ddewis yr atebion gorau ar eu cyfer.



- Annog pobl sy'n rhentu i rannu cyngor gyda'i gilydd.



- Mae'r rhan fwyaf o bobl eisiau i ni osod targedau ynni cryf sydd yn gallu cael eu cyrraedd.




- Mae darparwyr tai cymdeithasol eisiau cyllid hirdymor fel eu bod nhw'n gallu cynllunio'n well.

Cwestiynau i'w trafod yn Wythnos Hinsawdd Cymru:




- Sut rydyn ni'n gallu torri nwyon niweidiol o gartrefi yn gyflymach?
- Beth sy'n stopio pobl rhag cael gwresogi gyda nwyon llai niweidiol?
- Sut rydyn ni'n gallu cefnogi perchnogion a landlordiaid i wario arian?
- Sut rydyn ni'n gallu rhoi cyngor clir?
- Sut mae pobl ifanc yn gallu dechrau gyrfaoedd mewn tai gwyrdd?
- Sut mae gweithwyr yn gallu dysgu sgiliau newydd ar gyfer y gwaith yma?
- Sut rydyn ni'n gallu cefnogi busnesau Cymru i gyflenwi cynhyrchion gwell ar gyfer tai?
- Sut ddylai llywodraeth a busnesau rannu'r costau?

# Cludiant

Mae gennym ni lawer o bolisïau a chynlluniau ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru. Nod y rhain ydy:



- Cael pobl i deithio ar fysiau, trenau, cerdded, neu feicio mwy erbyn 2040.



- Adeiladu llwybrau cerdded a beicio i wneud teithio yn fwy iach a lleihau'r defnydd o geir.



- Stopio neu oedi prosiectau ffyrdd mawr sy'n cynyddu nwyon niweidiol.



- Cael mwy o bwyntiau gwefru ar gyfer ceir trydan a faniau.



- Creu system fysiau ar y cyd gydag amseroedd a thocynnau gwell.



- Gwneud trafnidiaeth gyhoeddus yn decach ac yn haws i bawb, gan gynnwys cymunedau yng nghefn gwlad.



- Lleihau nwyon niweidiol o geir, faniau a lorïau trwy dechnoleg.



- Cynllunio trafnidiaeth er budd iechyd pobl, cymunedau, a'r blaned.

**Cyngor arbenigol a syniadau ar gyfer gweithredu:**



- Newid i geir trydan a faniau. Erbyn 2033, fe fydd tua 4 o bob 10 car a faniau yn drydan. Erbyn 2030 fe fydd bron pob cerbyd newydd fydd yn cael eu gwerthu yn drydan.



- Newid tryciau diesel gyda loriau trydan batri.



- Annog mwy o gerdded, beicio, a defnyddio bysiau, er mwyn lleihau teithio car a llygredd.



- Adeiladu mwy o lonydd bysiau, llwybrau beicio, ac ardaloedd cerdded diogel.



- Gwneud i geir petrol a diesel ddefnyddio llai o danwydd.




- Mae terfynau cyflymder yn arbed tanwydd, yn lleihau nwyon niweidiol, ac yn lleihau costau.



- Cefnogi ardaloedd cefn gwlad a phobl ar incwm isel.




- Cynllunio trefi, fel bod pobl yn byw ger siopau, gwasanaethau, a swyddi.

**Cwestiynau i'w trafod yn Wythnos Hinsawdd Cymru:**



- **Sut rydyn ni'n gallu torri nwyon niweidiol mewn trafnidiaeth yn gyflymach?**
- **Sut mae pawb yng Nghymru yn gallu gwneud y gorau o gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus?**
- **Beth sy'n stopio pobl rhag defnyddio bysiau, beicio neu gerdded?**
- **Sut rydyn ni'n gallu helpu pobl a busnesau i newid i geir trydan a faniau?**
- **A ddylai pobl dalu i ddefnyddio ffyrdd i helpu i leihau nwyon niweidiol?**
- **Ydyn ni'n gallu rhoi gwobrau neu ddirwyon i dorri nwyon niweidiol? Ydyn ni'n gwybod digon am eu heffeithiau a beth fyddai'n digwydd?**
- **Ble ddylen ni ganolbwyntio fwyaf: Trafnidiaeth gyhoeddus? Cerdded a beicio? Cerbydau trydan?**

# Camau nesaf




Mae angen i ni gymryd y cyngor yn y llyfryn yma ac ysgrifennu ein cynllun nesaf.



Rydyn ni eisiau cynnwys beth rydych chi'n feddwl.



Ymunwch â ni yn Wythnos Hinsawdd Cymru ym mis Tachwedd 2025.



Cymerwch ran mewn Sgyrsiau Hinsawdd.




Mae mwy o wybodaeth yma:
[www.gweithreduarhinsawdd.llyw.cymru/wythnos-hinsawdd-cymru](www.gweithreduarhinsawdd.llyw.cymru/wythnos-hinsawdd-cymru)

# Geiriau anodd

## Newid yn yr hinsawdd

Mae newid yn yr hinsawdd yn newidiadau mawr yn y tywydd. Er enghraifft, lleoedd sy'n mynd yn fwy cynnes, gwlyb neu sych. Mae'r newidiadau yma yn achosi I bethau fel stormydd, llifogydd a thanau gwyllt waethygu.

## Sero net

Mae sero net yn meddwl faint o nwy niweidiol rydyn ni'n ei roi i'r awyr, ac yn ddim mwy na'r swm rydyn ni'n gallu ei gymryd allan ohono. Rydyn ni'n gwneud hyn trwy:

- Gostwng faint o nwyon niweidiol rydyn ni'n eu rhoi i'r awyr.
- Dod o hyd i ffyrdd o lanhau nwy niweidiol o'r aer.